**PANEL PENODIADAU ARBENNIG**
**(PENNAETH GWELLA YSGOLION)**

Cofnodion cyfarfod y Panel Penodiadau Arbennig a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor, Neuadd y Sir, Rhuthun ddydd Mercher Ionawr 23, 2008 am 5.30 p.m.

**PRESENNOL**

Cynghorwyr J A Smith (Cadeirydd), J Chamberlain-Jones, S Frobisher, H H Evans, M M Jones a'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau/Dirprwy Brif Weithredwr.

**HEFYD YN BRESENNOL**

M Mehmet (Cyfarwyddwr Dros Dro: Dysgu Gydol Oes), S Ellis (Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), David Edwards (Cadeirydd Ffederasiwn Prifathrawon Sir Ddinbych), Linda Atkin (Pennaeth Personél), Swyddog Personél (Linda M Jones) a Chlerc y sir ynghyd ag C Johnson ac L Judd (Gatenby Sanderson).

**YMDDIHEURIADAU**

Nid oedd yna unrhyw ymddiheuriadau.

**688 MATERION BRYS**

Dim

**689 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y Panel Penodiadau Arbennig a gynhaliwyd ar Ionawr 8 2008.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cofnodion y Panel Penodiadau Arbennig a gynhaliwyd ar Ionawr 8 2008 yn gofnod cywir a'u harwyddo gan y Cadeirydd.*

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol gan y byddai'n debygol y byddai gwybodaeth waharddedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 a 13 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

**690 PENODIAD PENNAETH GWELLA YSGOLION - RHESTR FER DERFYNOL**

Adroddodd ymgynghorwyr y Cyngor fod 3 ymgeisydd wedi mynychu'r Ganolfan Asesu yn unol â phenderfyniad y Panel eisoes, roedd dau ymgeisydd arall a gafodd eu gwahodd wedi tynnu'n ôl. Rhoddodd yr ymgynghorwyr drosolwg o broses y Ganolfan Asesu a'r ymarferiad a ymgymerwyd. Roedd ymgeiswyr wedi cwblhau proffil personoliaeth ar-lein a rhoddwyd adborth iddynt ar y rhain y diwrnod hwnnw i ddilysu'r broses. Yn ystod y dydd fe aseswyd yr ymgeiswyr ar ystod o ffactorau yn cynnwys archwilio'r hyn oedd yn eu symbylu yn eu gwaith, dadansoddiad o'u meddwl beirniadol a'u gallu dadansoddol drwy ymarferiad 'in tray' a rhyngweithio gyda Phaneli o Brifathrawon a Phobl Ifanc.

Fe ymatebodd yr ymgynghorwyr i gwestiynau'r aelodau ynglŷn â'r broses a'r adborth o ran pob ymgeisydd. Bu'r aelodau'n ystyried pob ymgeisydd yn ofalus a'r casgliad oedd y dylai un, drwy haeddiant, fynd ymlaen i gyfweliad terfynol gan y Panel.

***PENDERFYNWYD*** *fod*

*(a) yr ymgeisydd i fynd ymlaen i gyfweliad terfynol gan y Panel ar Ionawr 24 January, y Panel i ail-ymgynnull am 9.00 a.m. a'r ymgeisydd i'w gyfweld am 9.30 a.m.*

*(b) yr ymgeisydd i roi cyflwyniad ar bwnc yn y cyfweliad terfynol ac i ateb cwestiynau gan aelodau'r Panel, dyraniad y cwestiynau yn ôl penderfyniad y Panel.*

Daeth y cyfarfod i ben am 6.30 p.m.

********